

Addysgu Drama: Canllawiau ar ddiogelu ac amddiffyn plant i reolwyr ac ymarferwyr drama

**Cylchlythyr
Canllawiau**



**Addysgu ac
Arweinyddiaeth**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif y Cylchlythyr: 23/2006
Dyddiad Cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2006**



**Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills**

**Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government**

Teitl y Ddogfen:	Addysgu Drama: Canllawiau ar ddiogelu ac amddiffyn plant i reolwyr ac ymarferwyr drama.
Y Gynulleidfa:	Yng Nghymru, pob ysgol uwchradd, ysgol arbennig ac ysgol annibynnol, 10% o ysgolion cynradd, colegau addysg bellach gan gynnwys ysgolion drama arbenigol, colegau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, grwpiau theatr mewn addysg, sefydliadau drama cenedlaethol ac Adrannau Addysg ac awdurdodau rheoleiddio cymwysterau a'r cwricwlwm yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Golwg gyffredinol:	Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad Clywch ar 1 Gorffennaf 2004. Roedd yr adroddiad hwnnw'n archwilio honiadau o gam-drin disgyblion yn rhywiol gan athro drama mewn ysgol uwchradd yng Nghymru nifer o flynyddoedd yn ôl. Gwersi ac arholiadau drama oedd cyd-destun y rhan fwyaf o adroddiad Clywch ac amlinellodd y Comisiynydd Plant nifer o argymhellion penodol yn ymwneud â gwaith drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach. O dan argymhelliad 21.13 yn adroddiad Clywch nodwyd naw maes lle dylid darparu canllawiau ymarfer penodol o ran addysgu drama. Mae'r ddogfen yn cynnwys y canllawiau drafft sy'n rhoi cyngor i reolwyr ac athrawon drama ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, a'r rheini sy'n addysgu drama mewn lleoliadau eraill, ar sut i ymdrin â materion amddiffyn plant posibl.
Camau i'w cymryd:	Dylai'r ddogfen hon fod ar gael i'r holl athrawon drama ac ymarferwyr eraill a'u rheolwyr a dylai'r cyngor a roddir gael ei roi ar waith ym mhob lleoliad lle caiff drama ei haddysgu i blant.
Gwybodaeth bellach:	Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon cysylltwch â: qualifications&curriculum14-19.info@wales.gsi.gov.uk
Mwy o gopïau:	Ar gael oddi wrth Jill Hancock, Is-adran Cymwysterau a Chwricwlwm, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX
Dogfennau cysylltiedig:	• Clywch: Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol. • Diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc - Canllawiau ac enghreifftiau o arfer dda ar gyfer cyrff dyfarnu

Addysgu Drama: Canllawiau ar ddiogelu ac amddiffyn plant i reolwyr ac ymarferwyr drama.

Crynodeb

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad Clywch ar 1 Gorffennaf 2004. Mae'r adroddiad i'w weld ar y safle canlynol: <http://www.childcomwales.org.uk/>.

Roedd yr adroddiad hwnnw'n archwilio honiadau o gam-drin disgyblion yn rhywiol gan athro drama mewn ysgol uwchradd yng Nghymru nifer o flynyddoedd yn ôl. Gwersi ac arholiadau drama oedd cyd-destun y rhan fwyaf o adroddiad Clywch ac amlinellodd y Comisiynydd Plant nifer o argymhellion penodol yn ymwneud â gwaith drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.

O dan argymhelliad 21.13 yn adroddiad Clywch nodwyd naw maes lle dylid darparu canllawiau ymarfer penodol o ran addysgu drama.

Mae'r ddogfen yn cynnwys y canllawiau drafft sy'n rhoi cyngor i reolwyr ac ymarferwyr drama sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, a'r rheini sy'n addysgu drama mewn lleoliadau eraill, ar sut i ymdrin â materion amddiffyn plant posibl.

Addysgu drama: canllawiau i reolwyr ac ymarferwyr drama ar ddiogelu ac amddiffyn plant.

	Tudalen
1. Crynodeb o'r canllawiau ar gyfer rheolwyr ac ymarferwyr drama	1
2. Cyd-destun	4
3. Pobl ifanc a drama	5
4. Diogelu plant	6
5. Creu amgylchedd diogel ar gyfer gwersi a gweithgareddau drama	8
6. Dewis testunau drama priodol	10
7. Oedolion yn cymryd rhan mewn drama a grwpiau cymysg o ran oedran	12
8. Defnyddio technegau byrfyfyr a thechnegau drama eraill, gan gynnwys 'actio method'	13
9. Noethni a chyswllt corfforol, rhywiol agos	17
10. Iaith gref a sarhaus	18
11. Recordio ar fideo a chaniatâd rhieni	19
Atodiadau	21
Dyfyniad o adroddiad Clywch Comisiynydd Plant Cymru (Gorffennaf 2004)	21
Canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu lluniau mewn ysgolion	21

Addysgu drama: canllawiau i reolwyr ac ymarferwyr drama ar ddiogelu ac amddiffyn plant.

1. Crynodeb o'r canllawiau ar gyfer athrawon drama, ymarferwyr eraill a rheolwyr

Diogelu plant¹

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

- ofalu am les y dysgwyr yn anad dim;
- eu trin yn deg a chydag urddas a pharch;
- bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin ac esgeuluso;
- bod yn effro i'r perygl y gallai pobl sy'n cam-drin neu bobl a allai gam-drin ei beri i blant a phobl ifanc;
- eu gwarchod rhag niwed ac achosion o gam-drin, esgeuluso ac ecsbloetio;
- eu galluogi i fynegi eu safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnynt;
- cydweithio'n llawn ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant a phobl ifanc; a
- datgan unrhyw bryderon yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn y gweithle.

Mae'n rhaid i bob ymarferydd drama ddilyn polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yn ei weithle. Dylid seilio'r polisïau hyn ar 'Diogelu Plant: Cydweithio er mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004).

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau greu amgylchedd lle gall athrawon ddweud eu dweud os ydynt yn gweld arwyddion o ymddygiad amhriodol, ymddygiad anfoesegol neu gamwedd.

Creu amgylchedd diogel ar gyfer gwersi a gweithgareddau drama

Mae'n rhaid i reolwyr:

- fonitro ac adolygu cynlluniau gwaith athrawon drama a bod yn ymwybodol o'r gweithgareddau sydd i ddigwydd mewn gwersi ac ymarferion;
- cytuno gydag athrawon drama ar y testunau y bydd plant a phobl ifanc yn eu hastudio a'u perfformio;
- bod yn ymwybodol o amseroedd a lleoliadau ymarferion, a pha ddisgyblion sy'n cymryd rhan;
- sicrhau bod yr ystafell ddrama ar agor ac yn hygyrch i holl aelodau'r staff;

¹ Gweler 'Cydweithio i Ddiogelu Plant' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000) a 'Diogelu Plant: Cydweithio er mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)

- cynnal ymweliadau i fonitro sesiynau drama ac i gefnogi athrawon drama a'u cynnwys yng ngwaith ehangach y sefydliad;
- sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i hybu amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc a staff, yn enwedig lle mae'r athro drama yn gweithio ar ei ben ei hun;
- sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfforddus gydag unrhyw drefniadau ar gyfer ymarferion a gynhelir y tu allan i weithgareddau arferol y dosbarth;
- sicrhau bod aelodau staff eraill, sy'n cymryd rhan mewn gwaith drama yn achlysurol yn unig, yn ystod drama'r ysgol er enghraifft, yn ymwybodol o'r canllawiau hyn ac yn eu dilyn; a
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwbl glir beth y gallant ei ddisgwyl mewn gwersi drama, yn ymwybodol o weithdrefnau cwyno'r sefydliad a, lle'n briodol, sicrhau bod ganddynt eiriolwr addas. Mae Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau "Rheoliadau Perfformiad Plant 1968: Cyngor Arfer Gorau i AALLau yng Nghymru", a fydd yn cynnwys cymeradwyo hebryngwyr, yn ystod haf 2006.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama:

- greu amgylchedd agored ar gyfer addysgu drama er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc, a nhw eu hunain;
- creu diwylliant agored lle mae'n naturiol a chyffredin i aelodau staff eraill neu reolwyr 'alw heibio' yn ystod gwersi ac ymarferion;
- hysbysu uwch reolwyr am unrhyw ymarferion a gynhelir y tu allan i'r oriau addysgu arferol;
- hysbysu uwch reolwyr am unrhyw ymarferion a gynhelir gyda dysgwyr unigol a sicrhau bod y lleoliad a'r amgylchedd ar eu cyfer mor agored â phosib;
- sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfforddus gydag unrhyw drefniadau ar gyfer ymarferion a drefnir y tu allan i weithgareddau arferol y dosbarth.

Dewis testunau drama priodol

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama:

- ystyried yn ofalus a chymeradwyo'r testunau y bydd plant a phobl ifanc yn eu hastudio yn ystod y cynllun gwaith, ac addasu dramâu lle'n briodol;
- cymeradwyo'r testunau y mae plant a phobl ifanc yn eu hastudio ar gyfer arholiadau a dilyn rheolau'r cyrff dyfarnu ar gyflwyno sgriptiau byrfyfyr; a
- datrys unrhyw anawsterau ar y cyd ac er lles y plant a'r bobl ifanc.

Oedolion yn cymryd rhan mewn drama a grwpiau cymysg o ran oedran

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama sicrhau:

- bod gwersi drama yn ffordd i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau perfformio eu hunain;
- bod gwersi drama'n canolbwyntio ar roi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol i'r dysgwyr fel y gallant ddatblygu ym maes drama;
- bod athrawon drama yn ymyrryd mewn gwaith byrfyfyr grŵp i lywio technegau neu greu cymeriad newydd yn unig ac nad ydynt yn defnyddio'r wers fel ffordd o gyflwyno eu perfformiadau eu hunain;
- nad oes cyswllt corfforol, rhywiol agos rhwng dysgwyr na rhwng plant ac oedolion;
- wrth weithio gyda grŵp o oed cymysg, y rhoddir blaenoriaeth i anghenion y dysgwyr ieuengaf neu fwyaf agored i niwed; a
- lle mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama proffesiynol, bod hyn yn digwydd gyda chaniatâd eu rhieni neu ofalwyr, a bod trefniadau hebrwng priodol ar waith.



Defnyddio technegau byrfyfyr a thechnegau drama eraill, gan gynnwys 'actio method'

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama:

- fonitro gwaith byrfyfyr yn ofalus i sicrhau nad yw'n amhriodol a bod yr ymarferydd yn rheoli'r gweithgaredd bob amser;
- sicrhau bod y dysgwyr yn canolbwyntio ar y gweithgaredd;
- bod yn barod i ddod ag unrhyw waith byrfyfyr i ben, neu ei addasu os oes arwyddion bod pethau'n mynd yn rhy bell neu os oes plant neu bobl ifanc yn anghyfforddus gyda'r hyn sy'n digwydd;
- gallu cyfiawnhau'r gweithgaredd ar y sail ei fod er lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc;
- sicrhau nad yw'r gweithgaredd yn arwain at unrhyw niwed neu achosion o gam-drin, bychanu neu esgeuluso plant neu bobl ifanc;
- sicrhau bod y gwaith byrfyfyr yn addas i oed y dysgwyr; a
- defnyddio technegau 'actio method' ychydig iawn a chyda gofal mawr yn unig mewn gwaith ymarferol gyda dysgwyr sy'n iau nag 16 oed.

Noethni a chyswllt corfforol, rhywiol agos

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama:

- byth ganiatáu unrhyw noethni na chyswllt corfforol, rhywiol agos mewn gwersi neu gynyrchiadau drama;
- sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw gyswllt corfforol a'i fod yn dderbyniol; a
- sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw gyswllt corfforol rhwng yr athro drama a'r plentyn yn ystod gwaith drama, bod y plentyn yn cydsynio iddo a'i fod yn cael ei drafod yn ofalus a chall gan yr ymarferydd, gan fynd i'r afael â'r mater gam wrth gam.

Iaith gref a sarhaus

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama:

- gyfyngu ar y defnydd o iaith sarhaus mewn perfformiadau gan berfformwyr sy'n iau nag 16 oed
- defnyddio'u synnwyr cyffredin a sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw iaith a ddefnyddir yn nhermau ei heffaith ddramatig a'i phwmpas
- sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn parhau'n briodol ar gyfer lefel aeddfedrwydd y dysgwyr, natur y grŵp a pha mor agored i niwed yw dysgwyr unigol; a
- sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus gyda'r iaith a ddefnyddir.

Recordio ar fideo a chaniatâd rhieni

Dylai ymarferwyr a rheolwyr drama gael caniatâd gan rieni cyn tynnu ffotograffau neu recordio dysgwyr ar fideo. Mae'r un peth yn wir am dynnu ffotograffau o oedolion a'u recordio ar fideo (gweler yr atodiad).

2. Cyd-destun

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad Clywch ar 1 Gorffennaf 2004. Roedd yr adroddiad yn archwilio honiadau o gam-drin disgyblion yn rhywiol gan athro drama mewn ysgol uwchradd yng Nghymru nifer o flynyddoedd yn ôl. Casgliad y Comisiynydd Plant oedd bod y dystiolaeth a glywodd wedi dangos, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod athro drama diegwyddor wedi cam-drin disgyblion yn ei ofal yn rhywiol dros nifer o flynyddoedd. Gwersi ac arholiadau drama oedd cyd-destun rhan helaeth o'r adroddiad ac amlinellodd y Comisiynydd Plant nifer o argymhellion penodol yn ymwneud â gwaith drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.

Dan argymhelliad 21.13 yn adroddiad Clywch (gweler yr atodiad), nododd y Comisiynydd Plant naw maes lle dylid darparu canllawiau ymarfer penodol o ran addysgu drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach. Nod y canllawiau hyn yw mynd i'r afael â'r materion penodol a godwyd yn adroddiad y Comisiynydd Plant a'i argymhellion.

Pwmpas y canllawiau hyn yw darparu cyngor i athrawon drama ac ymarferwyr drama eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, a'r rhai sy'n addysgu drama mewn lleoliadau eraill – megis clybiau ieuencid, grwpiau theatr a mudiadau drama - ar sut i ddiogelu plant a sut i ymdrin â sefyllfa lle mae'n bosibl bod plant yn cael eu cam-drin. Mae hefyd yn darparu cyngor pwysig ar y materion hyn ar gyfer arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion a byrddau corfforaethol colegau addysg bellach.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddiogelu plant sydd ar waith mewn AALI, ysgol neu goleg penodol o dan adran 175 y Ddeddf Addysg 2002. Nid ydynt yn disodli'r polisïau a'r gweithdrefnau pwysig hyn. Mae hefyd yn bwysig i ymarferwyr drama a rheolwyr ystyried 'Diogelu plant - 'Cydwethio o dan Ddeddf Plant 2004' sydd i'w gyhoeddi yn ystod Haf 2006. Dylai gael ei ddarllen ar y cyd â'r canlynol:

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i'w cyhoeddi gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant;
- Canllawiau ar bolisïau chwythu'r chwiban ar gyfer ysgolion sydd i'w cyhoeddi yn ystod Haf 2006.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau, yn cynnwys y rhai a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Mae'r confensiwn yn berthnasol i bob plentyn yn ddi-wahân ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei fabwysiadu fel sylfaen yr egwyddor a fydd wrth wraidd ei holl ymwneud â phlant a phobl ifanc a dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol ystyried yr egwyddor wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'n golygu bod rhaid ystyried buddiannau'r plentyn yn anad dim wrth i oedolion wneud penderfyniadau amdanynt a bod gan y plentyn hawl i fynegi ei farn am faterion sy'n effeithio arno.

Gan fod y canllawiau hyn yn deillio o argymhellion adroddiad Clywch, maent yn canolbwyntio ar ddrama'n bennaf. Fodd bynnag, mae'n cynnwys negeseuon pwysig i bob ymarferydd a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig yn y celfyddydau mynegiannol neu berfformiadol, fel cerddoriaeth a dawn, ond hefyd ar gyfer y rhai mewn pynciau eraill fel addysg gorfforol, cerdd, Saesneg ac astudiaethau'r cyfryngau, lle mae angen sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu tyfu a datblygu mewn amgylchedd diogel.

Mae'r canllawiau ar gyfer ysgolion a cholegau'n bennaf, ond mae'r egwyddorion yn berthnasol hefyd mewn lleoliadau llai ffurfiol, fel clybiau drama a grwpiau theatr er enghraifft a sefydliadau cenedlaethol, fel yr Urdd. Maent hefyd yn berthnasol i leoliadau fel ysgolion preswyl, ysgolion annibynnol, cyrsiau preswyl a gweithdai. Lle bynnag mae mudiadau yn cynnig profiadau drama i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, mae'n bwysig bod yr ymarferwyr a'r rheolwyr dan sylw yn deall y canllawiau hyn a'u rhoi ar waith.

3. Pobl ifanc a drama

Mae drama'n dod yn fwyfwy poblogaidd mewn ysgolion a cholegau. Mae hefyd yn weithgaredd poblogaidd i lawer o bobl ifanc mewn grwpiau drama amatur sy'n cyfarfod y tu allan i oriau ysgol mewn lleoliadau eraill. Mae drama'n rhan hanfodol o'r cwricwlwm Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae mwy a mwy o ddysgwyr ôl-16 yn dilyn cyrsiau drama ar gyfer Safon Uwch ac fel rhaglen alwedigaethol mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, yn aml fel rhan o gwrs celfyddydau perfformio.

Mae'r profiad o gymryd rhan mewn drama yn cynnig llawer o fwynhad a boddhad i lawer o blant a phobl ifanc. Mae drama'n cynnig lluo o gyfleoedd iddynt weithio mewn grwpiau, i ddatrys problemau o fewn terfynau amser cyfyng a mynd i'r afael â materion sy'n bwysig yn eu bywydau nhw a bywydau eu cymunedau. Mae ymarferwyr drama yn parhau i feithrin cenedlaethau newydd sy'n ymddiddori mewn perfformio dramatig ac yn cael eu cyffroi ganddo.

Fodd bynnag, i blant a phobl ifanc eraill, gall gwaith drama fod yn her ac fe all gael effaith andwyol ar eu hunanhyder. Weithiau, gall gwaith dramatig adleisio anawsterau yn eu bywydau yn y gorffennol neu'r presennol. Felly, mae'n hanfodol i ymarferwyr drama ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol a dangos sensitifrwydd priodol wrth ddatblygu gwaith drama gyda phob plentyn ac unigolyn ifanc.

4. Diogelu plant

Mae rhai egwyddorion cyffredinol allweddol a ddylai fod yn sail i waith pob ymarferydd gyda phlant a phobl ifanc a bydd hynny'n arwain at greu amgylchedd diogel iddyn nhw a'r ymarferydd.

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

- ofalu am eu lles yn anad dim;
- eu trin yn deg a chydag urddas a pharch;
- bod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeuluso;
- bod yn effro i'r perygl y gallai pobl sy'n cam-drin neu bobl a allai gam-drin ei beri i blant a phobl ifanc;
- eu gwarchod rhag niwed ac achosion o gam-drin, esgeuluso ac ecsbloetio;
- eu galluogi i fynegi eu safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnynt;
- cydweithio'n llawn ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant a phobl ifanc; a
- datgan unrhyw bryderon yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant eu sefydliad.

Mae'n rhaid i bob ymarferydd fod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu plant ei sefydliad ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw. Fel pob ymarferydd, mae'n rhaid i athrawon drama wneud beth bynnag sydd ei angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, a hybu eu lles.

Mae'n rhaid i bob ymarferydd drama ddilyn y polisi a'r gweithdrefnau yn ei sefydliad ar gyfer diogelu plant.

Mae'n rhaid i bob ysgol a choleg yng Nghymru fod â pholisi a gweithdrefnau diogelu plant i athrawon eu dilyn. Dylai sefydliadau eraill sy'n cynnal gweithgareddau drama gyda phobl ifanc fod â pholisïau a gweithdrefnau addas hefyd. Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod â swyddog amddiffyn plant penodedig a gweithdrefnau eglur ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin plant. Dylai

pob sefydliad hefyd fod â chanllawiau eglur ar recriwtio a goruchwylio eu staff mewn perthynas â materion amddiffyn plant. Dylai pob ymarferydd fod yn ymwybodol o ganllawiau cyffredinol ei sefydliad ei hun ac mae'n rhaid iddo ddilyn y polisi a'r gweithdrefnau amddiffyn plant y cytunwyd arnynt. Mae'n rhaid iddo hefyd wybod at bwy i droi os oes ganddo bryderon.

Nid ailadrodd canllawiau statudol ar amddiffyn plant yw bwriad y canllawiau hyn. Maent yn cyflwyno canllawiau ychwanegol i ymarferwyr drama ac yn rhan o'r gweithdrefnau amddiffyn plant cyffredinol a sefydlwyd ym mhob ysgol a choleg a chan Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant Lleol. [Y rhain fydd y byrddau lleol diogelu plant.]

Mae'n rhaid i reolwyr greu amgylchedd lle gall athrawon neu ymarferwyr eraill ddweud eu dweud os ydynt yn gweld arwyddion o ymddygiad amhriodol, ymddygiad anfoesegol neu gamwedd.

Yn aml, aelodau staff yw'r cyntaf i sylweddoli y gallai rhywbeth difrifol fod o'i le ar y drefn o ddiogelu plant mewn ysgol, coleg neu sefydliad arall. Efallai y byddant yn gweld arwyddion o ymddygiad amhriodol ac yn dechrau poeni nad yw pethau fel y dylent fod. Dylai athrawon neu ymarferwyr eraill fod yn gwbl glir am beth y dylid ei wneud mewn achos o'r fath, sef dilyn y gweithdrefnau yn ymwneud ag amddiffyn plant, disgyblaeth a chwynion y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai aelodau staff yn barod i ddatgan eu pryderon gan gredu y byddai gwneud hynny'n dangos diffyg teyrngarwch i gyd-weithiwr. Efallai eu bod yn ofni cael eu herlid neu eu haflonyddu. Gallai hyn olygu eu bod yn anwybyddu'r pryder yn hytrach na sôn wrth rywun amdano.

Gall mynegi pryderon fod yn anodd a rhoi unigolyn mewn sefyllfa letchwith. Fodd bynnag, os oes gan aelod o staff bryder ynghylch diogelwch plentyn neu unigolyn ifanc, mae'n rhaid iddo ei fynegi. Fel arall, bydd yr athro wedi methu cyflawni ei ddyletswydd i amddiffyn plentyn rhag niwed posibl a gallai ganiatáu i rywun gamddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth². Mae'n bwysig felly bod rheolwyr yn datblygu diwylliant cefnogol lle gall aelodau staff fynegi eu pryderon a bod yn dawel eu meddwl y bydd y corff neu unigolyn priodol (y pennaeth neu'r corff llywodraethu fyddai hwn mewn ysgol) yn cynorthwyo i roi terfyn ar y camwedd neu'r ymddygiad amhriodol neu'r camymddwyn. Mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r sianeli sydd ar gael iddynt chwythu'r chwiban. Mae'n ymarfer da i ysgolion a cholegau a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc gytuno ar bolisi chwythu'r chwiban. Dylai roi sicrwydd amlwg i staff y gallant grybwyll materion difrifol heb ofni unrhyw ddial.

² Gweler 'Cyd Ganllawiau Sefydliad Cenedlaethol Cyflogwyr Athrawon Ysgol (NEOST)/Undebau'r Athrawon ar Atal Camddefnyddio Sefyllfa o Ymddiriedaeth' (Medi 2002)
www.lge.gov.uk/conditions/education/content/allegations_preventing_abuse_guidelines.html

5. Creu amgylchedd diogel ar gyfer gwersi a gweithgareddau drama

Mae'n rhaid i reolwyr ac ymarferwyr drama gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddiogelu plant a phobl ifanc mewn gwersi a gweithgareddau drama

Ffactorau allweddol datblygu amgylchedd diogel yw diwylliant o fod yn agored a monitro effeithiol o waith yr adran ddrama gan reolwyr ysgolion a cholegau. Mae angen i reolwyr ac ymarferwyr drama gydweithio i sicrhau bod plant yn ddiogel mewn gwersi a gweithgareddau drama.

Mae'n rhaid i reolwyr gydnabod y peryglon posib sy'n bodoli wrth addysgu drama o safbwynt amddiffyn plant. Y ffordd orau i reoli'r peryglon hyn yw datblygu amgylchedd diogel ac agored ar gyfer gwaith drama, chwarae rhan lawn yng ngwaith yr adran ddrama, monitro'r gweithgareddau a sicrhau eu bod yn rheoli'r adran ddrama yn unol â'r canllawiau hyn a bod athrawon drama'n dilyn y canllawiau hyn.

Mae angen i reolwyr hefyd ddatblygu dealltwriaeth gadarn o natur drama fel pwnc, fel y gallant drafod y materion dan sylw'n llawn a chael trafodaethau effeithiol gydag ymarferwyr drama.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama drafod yn agored gyda rheolwyr ac aelodau staff eraill

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama mewn ysgolion chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol gyfan. Mae'n bosib y gall anawsterau ddatblygu i'r ymarferydd a'r plentyn os yw ymarferydd drama wedi'i ynysu neu ar wahân i weddill yr ysgol. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw hyn yn digwydd. Mae drama'n ganolog i lawer o agweddau ar fywyd ysgol ac mae diwylliant agored o rannu ar waith yn yr adran ddrama. Mae'r ymarferydd drama bob amser yn rhan o strwythur sefydliadol ehangach, fel aelod o adran neu gyfadran, ac, uwchlaw hynny, fel aelod o staff mewn ysgol neu goleg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae rheolwyr wedi tueddu i geisio osgoi gwrthdaro posib neu drafod gydag ymarferwyr drama neu wedi'u hystyried fel gwrthryfelwyr. Ni ddylai hyn fyth ddigwydd gan ei fod yn atal amgylchedd diogel ac agored i ddysgwyr a'r ymarferydd drama. Mae angen nodi mecanweithiau'n glir i sicrhau na all amgylchedd peryglus o'r fath ddatblygu.

Mae'n rhaid i reolwyr ac ymarferwyr drama sicrhau bod amgylchedd agored ar gyfer addysgu drama

Dylai'r ystafell ddrama fod yn agored a hygyrch i'r holl staff, yn enwedig i staff â chyfrifoldebau rheoli ehangach, er enghraifft dros yr adran neu'r gyfadran a thros y sefydliad cyfan. Gan gydnabod bod ymarferwyr drama'n aml am greu lle arbennig ar gyfer drama, ac y gall ymweliadau gan bobl eraill effeithio ar lif y gwaith dramatig weithiau, mae'n rhaid i bob ymarferydd drama dderbyn bod bod yn agored a chael ei

archwilio yn hollbwysig i'r broses o amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae ethos agored o'r fath hefyd yn rhoi diogelwch pwysig iddyn nhw.

Weithiau, bydd natur ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau drama yn ymddangos fel petaen nhw'n eithrio eraill, oherwydd bod y ffenestri wedi'u duo neu fod yno lenni du, er enghraifft. Ar adegau eraill, efallai y bydd aelodau staff yn amharod i ddod i'r ystafell am nad ydynt am darfu ar berfformiad neu beri i ddisgyblion swilio. Fodd bynnag, mae creu diwylliant o fod yn agored lle mae'n naturiol ac yn arferol i aelodau staff eraill neu reolwyr 'alw heibio' i wersi ac ymarferion yn hanfodol. Mae'n rhaid i uwch reolwyr weithio'n ddiwyd gydag ymarferwyr drama i sicrhau bod diwylliant agored a hawl mynediad i'r ystafelloedd drama i'r holl staff perthnasol ar unrhyw adeg.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama sicrhau bod cyd-weithwyr eraill a rheolwyr yn ymwybodol o holl fanylion ymarferion a'u bod yn eu hannog i 'alw heibio' unrhyw amser

Mewn ysgolion a cholegau, mae gwersi drama yn aml iawn yn cael eu cynnal ar wahân i weddill yr ysgol, mewn dosbarth symudol efallai, neu mewn neuadd â chyfleusterau tywyllu. Cynhelir ymarferion drama ar ôl yr ysgol neu amser cinio'n aml ac weithiau gofynnir i grŵp bach aros ar ôl yr ysgol i ymarfer. Ni fydd rheswm braidd byth i blentyn neu unigolyn ifanc aros i ymarfer ar ei ben ei hun, yn enwedig gan fod byrddau arholi fel arfer yn nodi mai tri ddylai'r isafswm fod mewn grŵp ar gyfer gwaith ymarferol sy'n cael ei arholi. Fodd bynnag, gallai ambell ddysgwyr gael budd o ymarferion unigol, i'w paratoi ar gyfer clyweliadau neu ran mewn cynhyrchiad ysgol neu goleg er enghraifft. Mae'n rhaid i ymarferwyr drama hysbysu uwch reolwr pan fydd unrhyw waith unigol o'r math hwn yn cael ei wneud. Gall gwaith unigol arwain at sefyllfaoedd lle gallai dysgwyr fod yn agored i gael eu cam-drin. Gallai hefyd adael yr ymarferydd drama'n agored i honiadau.

Er mwyn osgoi unrhyw anawsterau, mae'n rhaid i ymarferwyr drama sicrhau bod y sefyllfaoedd hyn yn codi mewn amgylchedd agored. Dylid rhannu amser, lleoliad a manylion y dysgwyr sy'n cymryd rhan gydag aelodau staff eraill a rheolwyr a dylai ymarferwyr drama hysbysu rhieni am drefniadau'r ymarferion. Dylai ymarferwyr drama annog aelodau staff eraill i fynychu ymarferion, a dylai rheolwyr wneud pwynt o alw i mewn i ymarferion o dro i dro. Lle'n bosib, cynhaliwch ymarferion gydag aelod arall o'r adran ddrama, neu sicrhewch fod aelod arall o staff yn gweithio gerllaw.

Weithiau, cynhelir ymarferion ar benwythnosau, yn enwedig cyn cynhyrchiad mawr. Dylai ymarferwyr drama ddilyn yr un canllawiau â'r uchod, a gwneud yn arbennig o siŵr bod rhieni'r dysgwyr dan sylw'n hollol ymwybodol o'r trefniadau. Ar yr adegau hyn, mae'n gyffredin i nifer o aelodau staff fod mewn ymarfer ac mae hyn yn darparu amgylchedd cymharol ddiogel i'r staff a'r dysgwyr.

6. Dewis testunau drama priodol

Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr drama ystyried materion diogelu ac amddiffyn plant yn ofalus wrth ddewis testunau drama i'w haddysgu

Mae dewis testunau'n codi materion amddiffyn plant pwysig. Mae'n rhaid i ymarferwyr drama ddewis testunau sy'n gwbl briodol i blant a phobl ifanc eu hastudio a'u perfformio. Pan fo ymarferydd drama'n dewis testun addas, nid yw materion anodd eraill, fel sut i ymdrin ag iaith a chynnwys amhriodol, yn codi'n aml. Mae defnyddio'r dull hwn yn diogelu'r dysgwyr a'r ymarferydd i ryw raddau.

Nid yw'n ymarferol llunio rhestr benodol o destunau drama i'w defnyddio mewn ysgolion a cholegau. Byddai hyn yn ormod o sensoriaeth. Pe bai ymarferwyr drama'n cael eu hysbysu nad oeddent i ddewis dramâu sy'n cyfeirio at gariad, rhyw neu drais, yna byddai'n amhosib i bobl ifanc berfformio llawer o ddramâu pwysig a gwerthfawr. Mae'n amhosib dweud sut byddai ymarferydd drama'n mynd i'r afael ag unrhyw destun penodol, hyn yn oed un sy'n ymddangos yn ddiniwed ar yr olwg gyntaf neu sydd wedi bod ar y cwricwlwm drama ers amser maith, gan fod potensial bob amser ar gyfer darlleniadau, dehongliadau a pherfformiadau newydd.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama olygu neu addasu dramâu os oes rhaid, er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i'w diogelwch nhw gael blaenoriaeth bob amser dros y gwaith artistig.

I rai ymarferwyd drama, mae golygu neu addasu drama yn benderfyniad anodd gan ei fod yn amharu ar onestrwydd artistig y ddrama. Mae'n troi'n rhywbeth nad oedd yr awdur wedi'i fwriadu o gwbl. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddiogelwch plant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau gael blaenoriaeth bob amser dros onestrwydd y gwaith artistig.

Yn adroddiad y Comisiynydd Plant, codwyd materion yn ymwneud â thestunau drama penodol, a ddefnyddiwyd, mae'n ymddangos, gan yr ymarferydd drama dan sylw yn yr achos honedig o gam-drin i annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol amhriodol. Roedd rhai testunau yn cynnwys golygfeydd ac iaith rywiol amlwg ac yn cynnwys cyfarwyddiadau llwyfan yn nodi bod lle ar gyfer noethni yn y ddrama.

Yn amlwg, mae testunau o'r fath yn achosi problemau i ymarferydd drama mewn perfformiad mewn ysgol neu goleg. Nid oes lle ar gyfer noethni mewn lleoliadau o'r fath ac felly dim ond trwy gymryd gofal mawr a chryn addasu y byddai'n bosib perfformio neu astudio dramâu felly mewn ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymarferwyr a rheolwyr ymdrin â thestun mor anodd a llawn her yn ofalus iawn a chyda lles y plant a'r bobl ifanc bob amser yn flaenllaw yn eu meddyliau. Wrth benderfynu sut i fynd ati, dylai athrawon a rheolwyr drama ddilyn y canllawiau a nodir yma. Ni ddylent ganiatáu i'r ddrama gael ei pherfformio mewn ffordd fyddai'n cam-drin, yn ecsbloetio neu'n niweidio plentyn neu unigolyn ifanc trwy

bortreadu gweithgarwch rhywiol amlwg. Mae hyn yn golygu y dylai ymarferwyr drama addasu golygfeydd mewn perfformiadau i osgoi'r posibilrwydd o unrhyw niwed neu dylent dorri golygfa neu linellau penodol neu gyfarwyddiadau llwyfan o'r ddrama. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn yn galluogi i'r ddrama barhau i fod yn gyflwyniad theatr dealladwy, ond mae'n arwain at rywffaint o hunan-sensoriaeth anorffod.

Dylai ymarferwyr drama ymgynghori â rheolwyr bob amser wrth wneud y penderfyniadau anodd hyn a dylent gytuno ar y ffordd o fynd ati gyda'u rheolwyr. Efallai y bydd penderfynu peidio â defnyddio'r testun o gwbl yn angenrheidiol a chall os yw'n achosi gormod o anawsterau a pheryglon posib i'r dysgwyr a'r ymarferydd.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama hysbysu ac ymgynghori ag uwch reolwyr os oes ganddynt unrhyw bryderon am destun

Pan fydd athrawon drama'n penderfynu pa destunau i'w haddysgu, mae'n rhaid iddynt ddilyn yr egwyddorion amddiffyn plant cyffredinol a nodir ar ddechrau'r canllawiau hyn yn ogystal â'r canllawiau mwy penodol am ddewis testunau a pha mor briodol yw gwahanol fathau o destunau i ymarfer drama gyda phobl ifanc. Os oes gan athrawon drama unrhyw bryderon am destun, dylent hysbysu ac ymgynghori â'r rheolwr yn yr ysgol sy'n gyfrifol am fonitro gwaith yr adran ddrama. Mae'n rhaid i'r athro drama a'r rheolwr wneud penderfyniadau am y ffordd o fynd ati gyda'i gilydd. Os ydynt yn anghytuno, y rheolwr sydd i gael y gair olaf.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama a rheolwyr weithredu er lles y plentyn a'r unigolyn ifanc bob amser yn hytrach na'r ddrama neu'r gweithgaredd dramatig

Wrth feddwl am olygfa benodol mewn testun a allai achosi anhawster, mae'n rhaid i ymarferwyr drama ddefnyddio'r prawf lles: a yw hyn er lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc? Dylai ymarferwyr drama allu rhoi cyfiawnhad priodol am yr hyn a wnânt ar sail lles y dysgwr yn hytrach na dibynnu ar ddadleuon am onestrwydd artistig y testun, bwriad yr awdur neu ddisgyblaethau penodol perfformiad dramatig. Mae hwn yn bwynt pwysig i ymarferwyr drama a'u rheolwyr ei ddeall a'i werthfawrogi. Ni all ymarferydd drama ei amddiffyn ei hun gyda'r ddadl bod y ddrama ei hun yn gofyn am gynnwys rhywiol neu noethni. Yn y gorffennol, mae rhai athrawon drama diegwyddor wedi defnyddio gonestrwydd y ddrama fel dadl i guddio eu camdriniaeth. Maent wedi dadlau mai'r cwbl roedden nhw'n ei wneud oedd dilyn y testun a mynegi dymuniadau'r awdur. Nid yw hyn yn iawn mewn cyd-destun ysgol neu goleg, nac unrhyw leoliad arall, gan fod diogelu plant a phobl ifanc yn ystyriaeth bwysicach na gonestrwydd y ddrama.

Mae'n rhaid i reolwyr ac athrawon drama ddilyn rheolau'r cyrff dyfarnu ar gyfer cyflwyno testunau neu sgriptiau byrffyr a chymryd cyfrifoldeb llawn drostynt

Mynegodd adroddiad Comisiynydd Plant Cymru yn 2004 bryderon penodol am y modd y cynhaliwyd arholiadau drama ar adeg yr achos honedig o gam-drin. Mae

adroddiad Clywch yn cynnwys argymhelliad penodol (21.12) sy'n nodi y dylai cyrff dyfarnu wella eu gweithdrefnau amddiffyn plant mewn arholiadau drama. Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyrff dyfarnu fel ymateb i argymhellion yr adroddiad (gweler www.old.accac.org.uk/eng/content.php?mID=717).

Mae'n hanfodol bod athrawon drama a rheolwyr yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer hysbysu'r cyrff dyfarnu am y testunau neu'r sgriptiau byrffyr y bydd dysgwyr yn eu defnyddio yn eu harholiadau. Mae'n rhaid i reolwyr ac athrawon drama gymryd cyfrifoldeb llawn dros addasrwydd y testunau sy'n cael eu hastudio a'u cyflwyno mewn arholiadau. Mae angen i athrawon drama ystyried y testunau maent yn eu dewis ar gyfer arholiadau drama'n ofalus, yn union fel y byddent yn ei wneud yn achos testunau i'w hastudio yn y dosbarth. Bydd cyrff dyfarnu'n dewis testunau derbyniol ac mae defnyddio'r testunau 'gosod' hyn yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i'r athro.

Amlygodd adroddiad y Comisiynydd Plant hefyd faterion penodol yn ymwneud â chyflwyno sgriptiau a gynhyrchwyd gan ddisgyblion yn hwyr, yn enwedig lle nad oeddent yn briodol o ran eu cynnwys a'u hiaith. Fel y nodwyd yn gynharach, ni ellir amddiffyn gwaith amhriodol ar y sail ei fod yn deillio o waith byrffyr neu gan y dysgwyr eu hunain. Yn y pen draw, mae'n rhaid i'r athro drama gymryd cyfrifoldeb dros addasrwydd y testunau sy'n cael eu hastudio a'u cyflwyno mewn arholiadau.

7. Oedolion yn cymryd rhan mewn drama a grwpiau cymysg o ran oedran

Ni ddylai ymarferwyr drama daflu cysgod dros y plant trwy berfformio gormod eu hunain

Mae lle i ymarferwyr drama ymyrryd yng ngwaith dysgwyr, yn enwedig pan fyddant yn gwneud gwaith byrffyr. Gallai hyn fod er mwyn dangos technegau a sgiliau dramatig i'r dosbarth neu i unigolion. Efallai y bydd ymarferydd drama am ymuno â gwaith byrffyr grŵp i greu cymeriad newydd neu symud y gwaith i drywydd gwahanol. Mae'r math hwn o ymyrryd gan athrawon yn briodol ac yn angenrheidiol yn aml iawn. Weithiau, mae lle hefyd i ymarferydd ddefnyddio ei sgiliau dramatig ei hun i ddangos ffyrdd effeithiol o weithio. Mae'r dechneg 'athro mewn rôl' yn aml yn ddull dilyn ac effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael y cydbwysedd yn gywir ac ni ddylai'r athro daflu cysgod yn ormodol. Dylai swyddogaeth yr ymarferydd ganolbwyntio ar roi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau priodol i'r dysgwyr fel y gallan nhw eu hunain ddatblygu ym maes drama. Dylai'r ymarferydd gynllunio gwersi a gweithgareddau i ddatblygu gallu'r myfyrwyr. Mae'n amhriodol i'r ymarferydd daflu cysgod dros y gwaith perfformio neu ddefnyddio'r gwersi drama fel llwyfan ar gyfer ei berfformiad ei hun. Ymron ym mhob achos, dylai gwaith perfformio gynnwys y plant a'r bobl ifanc gymaint ag y bo modd ac ni ddylai ganolbwyntio'n ormodol ar yr ymarferydd neu oedolion eraill.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama amddiffyn y dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed wrth ddysgu pobl o oeddrannau cymysg gyda'i gilydd

Pan fo plant iau yn cymryd rhan mewn perfformiadau gyda phlant neu bobl ifanc hŷn, yna mae angen i'r ymarferydd drama ystyried yn ofalus beth yw'r goblygiadau i'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed sy'n cymryd rhan - y plant ieuengaf fel rheol. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw hyn yn achosi unrhyw broblemau, gan fod y ddrama gyfan yn briodol i'r perfformiwr ieuengaf. Mae'r mwyafrif o gynyrchiadau ysgolion a cholegau yn ddramâu o'r fath ac ni cheir unrhyw anawsterau. Fodd bynnag, os oes gan blentyn iau ran mewn drama fwy aeddfed, gall hyn achosi anawsterau i'r ymarferydd drama. Yn y pen draw, y ffordd orau o fynd ati yw canolbwyntio ar yr unigolyn sydd fwyaf agored i niwed - y plentyn iau yn yr achos hwn. Os nad yw'r deunydd yn addas i'r plentyn iau, yna nid yw'n addas i'r plentyn hwnnw gymryd rhan. Os yw'r plentyn yn cymryd rhan, gallai'r ymarferydd drama fod mewn perygl o gael ei gyhuddo o beidio ag ystyried lles y plentyn gan adael y plentyn hwnnw'n agored i niwed neu i gael ei gam-drin neu ei ecsbloetio.

Pan fydd plant a phobl ifanc dan 16 oed yn cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama proffesiynol, mae'n bwysig i rieni a gofalcwyr gael eu hysbysu'n llawn am natur y cynhyrchiad, rhan yr unigolyn ifanc a'r ymrwymadau sy'n ofynnol. Bydd angen i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc gael caniatâd ei rieni neu ofalcwyr er mwyn cymryd rhan. Ym mhob achos, dylid gwneud trefniadau hebrwng i sicrhau bod rhywun mae'r plentyn neu unigolyn ifanc yn ei adnabod yn gofalu am ei les bob amser.

Mewn colegau addysg bellach, ac mewn rhai lleoliadau eraill, er enghraifft grwpiau drama amatur, efallai y bydd pobl ifanc yn cyflawni gweithgareddau drama gydag oedolion o dro i dro. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyrsiau celfyddydau perfformio galwedigaethol mewn colegau. Yn yr achosion hyn, dylai'r ymarferydd fod yn ymwybodol o'r profiad amrywiol sydd gan y bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd a cheisio ymdrin yn ystyriol â'r gymysgedd o brofiad a diffyg profiad. Er y byddai presenoldeb dysgwyr sy'n oedolion yn awgrymu bod mabwysiadu dulliau oedolaidd yn fwy derbyniol, mae angen i'r ymarferydd ganolbwyntio ar y ffaith y gallai aelodau iau'r dosbarth fod yn agored i niwed. Mae'n rhaid i'r ymarferydd barhau i ddefnyddio'r prawf lles a, lle'n briodol, gwneud pethau'n llai oedolaidd er mwyn ystyried anghenion aelodau'r dosbarth sydd fwyaf agored i niwed - yr aelodau iau fel rheol.

Dan amgylchiadau eithriadol lle mae plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei daro'n wael ychydig cyn y perfformiad, byddai'n briodol i'r ymarferydd drama neu oedolyn arall gymryd ei le ar y funud olaf er mwyn i'r perfformiad fynd yn ei flaen.

8. Defnyddio technegau byrfyfyr a thechnegau drama eraill, gan gynnwys 'actio method'

Mae ymarferwyr drama'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau i ddatblygu sgiliau actio a sicrhau perfformiad sy'n argyhoeddi gan y dysgwyr. Mae gwaith byrfyfyr yn

elfen bwysig o addysgu drama ac mae'n digwydd yn amlach mewn gwersi drama na bron unrhyw weithgaredd arall. Mae gwaith byrfyfyr yn datblygu dychymyg dysgwyr ac yn darparu cyd-destun i ddatblygu sgiliau dramatig penodol. Yn gyffredinol, mae llawer o waith byrfyfyr yn ymwneud â datblygu a chyflwyno cymeriadau unigol, sy'n argyhoeddi trwy waith dramatig.

Mae gwaith byrfyfyr yn gofyn i'r ymarferydd fod yn fedrus iawn, gan ymyrryd i'r graddau sydd eu hangen yn unig i ddatblygu gwaith y dysgwyr mewn ffyrdd cynhyrchiol. Mewn rhai achosion, nid oes angen i'r ymarferydd wneud dim mwy na gwylio'r gwaith; ar adegau eraill, efallai y bydd rhaid i'r ymarferydd gynorthwyo'r dysgwyr i ddatblygu potensial dramatig eu gwaith. Mewn sawl achos, mae angen i'r ymarferydd sicrhau bod y dysgwyr yn parhau i ganolbwyntio ar y gweithgaredd rhag ofn iddynt ddechrau cyflwyno stereoteipiau neu bod eu brwdfrydedd naturiol yn achosi iddynt fynd dros ben llestri.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama fonitro datblygiad gwaith byrfyfyr yn ofalus a dod â'r gwaith i ben os yw pethau'n mynd yn rhy bell

Mewn gwaith byrfyfyr, bydd yr ymarferydd yn cynnig man cychwyn yn aml, ac yna bydd y dysgwyr yn parhau â'r dasg a'i datblygu ym mha bynnag ffordd y credant sy'n addas, o fewn ffiniau a osodir gan yr ymarferydd fel rheol. Mae angen i'r ymarferydd fonitro hyn yn ofalus rhag ofn i'r gwaith byrfyfyr fynd dros ben llestri neu i'r gwaith ddilyn trywydd anaddas, er enghraifft cyfeiriadau rhywiol amlwg neu iaith anweddus. Yn amlwg mae elfen o risg mewn gwaith byrfyfyr, ac mae angen i'r ymarferydd fod yn ymwybodol o hyn a rheoli'r gweithgaredd yn addas.

Mae rhyddid rhai mathau o waith byrfyfyr hefyd yn golygu bod perygl y gallai ymarferydd diegwyddor ddylanwadu ar y gwaith byrfyfyr gan drafod a chyflwyno pethau sy'n amhriodol i'r plant, ond yn ddymunol o safbwynt yr ymarferydd diegwyddor.

Dyma pam mae'r diwylliant o fod yn agored unwaith eto'n bwysig ac mae angen cynnal y prawf lles. Dylai'r tasgau byrfyfyr fod yn rhan o gynllun gwaith eglur sy'n hygyrch ac ar gael i bawb, gan gynnwys rhieni, rheolwyr a dysgwyr. Dylai'r gwersi gael eu cynnal mewn diwylliant agored lle gall aelodau staff eraill ymweld â'r gwersi ar unrhyw adeg. Dylai'r ymarferydd allu cyfiawnhau'r gweithgaredd ar y sail ei fod er lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc ac nad yw'n arwain at unrhyw niwed i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc nac iddo gael ei gam-drin, ei fychanu neu ei esgeuluso. Mae'n rhaid i'r gwaith byrfyfyr ddilyn y canllawiau cyffredinol a phenodol a nodir yma, yn enwedig o ran cynnwys rhywiol, cyswllt corfforol agos ac iaith anweddus.

Nid yw dweud bod gwaith byrfyfyr wedi digwydd dilyn trywydd anaddas gan mai'r dysgwyr eu hunain wnaeth ei gychwyn yn amddiffyniad digonol. Nid yw dweud na ellir darogan trywydd gwaith oherwydd natur y cyfrwng yn amddiffyniad chwaith. Mae'n rhaid i'r ymarferydd drama fonitro gwaith byrfyfyr yn ofalus a dod â'r gwaith i ben os yw'n mynd yn rhy bell neu i gyfeiriad amhriodol.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama gymryd plant a phobl ifanc o ddifrif os yw'n ymddangos eu bod yn dioddef pryder diangen neu os dywedant eu bod yn teimlo'n anghyfforddus gyda gweithgaredd. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r ymarferydd ddod â'r gweithgaredd i ben neu ei addasu.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama gadw llygad am arwyddion bod plant neu bobl ifanc yn wirioneddol anghyfforddus. Efallai y bydd ymarferydd drama yn sylwi bod plentyn neu unigolyn ifanc yn anghyfforddus gyda gweithgaredd penodol mae'r ymarferydd wedi gofyn iddo ei gyflawni, fel rhan o waith byrfyfyr neu berfformiad efallai. Ar adegau eraill, efallai y bydd dysgwyr yn dweud eu bod yn anghyfforddus am barhau gyda'r gweithgaredd dramatig. Mae hyn yn creu problemau i'r ymarferydd drama. Ar y naill law, gallai'r ymarferydd deimlo y byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwr fagu mwy o hyder neu repertoire ehangach o sgiliau. Gallai hyn olygu gwneud y dysgwr rywfaint yn anghyfforddus. Byddai'r mwyafrif o ymarferwyr yn annog y dysgwr i roi cynnig arni ac yn esbonio'r rhesymau am ofyn iddo ddatblygu ei sgiliau yn y modd hwn. Fodd bynnag, os yw'n ymddangos bod dysgwr yn wirioneddol bryderus am agwedd ar waith byrfyfyr neu berfformiad neu'n mynegi hynny'n agored, yna mae'n bwysig i'r ymarferydd o wrando ar hyn, ymateb yn ystyriol gan barhau mewn ffordd addas - cyfnewid rhannau neu ddod â'r gweithgaredd i ben a symud at rywbeth arall, efallai.

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. Mae angen i ymarferwyr drama ymateb yn ystyriol yn yr achosion hyn ac osgoi sefyllfaoedd a allai arwain at blentyn neu unigolyn ifanc yn teimlo cywilydd.

Dylai ymarferwyr drama ddefnyddio technegau 'actio method' ychydig iawn a chyda gofal mawr yn unig mewn gwaith ymarferol gyda dysgwyr sy'n iau nag 16 oed.

Mae techneg sy'n cael ei ddefnyddio gan rai actorion a chyfarwyddwyr yn cael ei alw'n 'actio method'. Yn gyffredinol, mae'n golygu bod perfformwyr yn defnyddio profiadau personol neu brofiadau sy'n deillio o waith ymchwil yn ymwneud â'r cymeriad sy'n cael ei bortreadu ganddynt fel sail i'w cyflwyniad o gymeriad. Gall hon fod yn dechneg ddwys iawn ac, mewn ambell ffurf, mae'n debyg i seicoleg ddwys sy'n dwyn i gof brofiadau a gafodd eu claddu ac emosiynau ac achosion o wrthdaro na chawsant eu datrys yn y gorffennol, gan eu defnyddio i greu perfformiad sy'n argyhoeddi. Nod yr actor method yw byw neu ymddwyn fel y cymeriad y mae'n ei bortreadu tra bo technegau eraill yn canolbwyntio mwy ar yr actor yn cyflwyno cymeriad mewn ffordd sy'n argyhoeddi trwy ddefnyddio technegau a dyfeisiau actio penodol.

Mae'n briodol i ymarferwyr drama gyflwyno'r astudiaeth o wahanol fathau o ddrama i'r dysgwyr. Mae llawer yn cael budd trwy ganolbwyntio ar 'System' Stanislavski a dulliau theatrig Brecht. Gall ymarferwyr drafod â'r dysgwyr gysyniad 'actio method' a'i gysylltiad â Lee Strasberg fel rhan o drafodaeth am hanes y theatr neu ddatblygiad dulliau damcaniaethol o berfformio. Fodd bynnag, mewn perthynas â

gwaith drama ymarferol a datblygu cymeriadau, mae angen bod yn ofalus iawn wrth ystyried actio method.

Yn gyffredinol, nid oes angen i ddysgwyr sy'n iau nag 16 oed ddatblygu 'actio method' fel techneg ymarferol wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau drama ymarferol yn y cyfnod hwn. Dylent ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau actio priodol, cynrychioliadol yn ystod y cam hwn. Yn aml, bydd ymarferwyr yn annog dysgwyr i gysylltu'r cymeriadau a gyflwynant ag elfennau o fewn eu bywydau a'u profiadau eu hunain, ag emosiynau y maent wedi'u teimlo ac â phobl a sefyllfaoedd y maent wedi'u hwynebu. Mae hyn yn aml yn goleuo gwaith actio'r dysgwyr ac yn eu helpu i gynhyrchu gwaith dramatig argyhoeddiadol. Fodd bynnag, dylai'r gwaith hwn gyda dysgwyr sy'n iau nag 16 oed ganolbwyntio ar ddatblygu symudiadau corfforol, ymddaliad a llais yn hytrach nag unrhyw ymchwiliad dwfn i seicoleg neu ddwyn i gof brofiadau anodd, heb eu datrys, o'r gorffennol. Yn ystod y cyfnod hwn ym mywydau plant a phobl ifanc gall technegau actio method eu haflonyddu a pheri iddynt deimlo'n anghysurus a gall hyn lesteirio eu datblygiad yn y pwnc. O ganlyniad dylid cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r dechneg a gochel wrth ei defnyddio gyda disgyblion iau na 16 oed.

Gall ymarferwyr drama a rheolwyr ystyried mwy o hyblygrwydd mewn gwaith gyda phobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed, ond dylid gwneud hynny bob amser o fewn cyfyngiadau gan ystyried yn llawn pa mor agored i niwed yw'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan

Pan fydd pobl ifanc dros 16 oed, mae'n briodol cyflwyno amrywiaeth ehangach o waith dramatig iddynt. Bydd pobl ifanc sydd â diddordeb mewn drama am ddarganfod yr hyn sydd gan y theatr fodern i'w gynnig ac mae ymarferwyr drama'n iawn i'w cyfeirio at waith theatr gyfoes o bwys. Gallai hyn olygu'n aml y bydd dysgwyr sy'n hŷn nag 16 oed yn dod ar draws rhegfeydd, iaith gref a sefyllfaoedd ac agweddau llawn her yn fwy rheolaidd na dysgwyr sy'n iau nag 16 oed. Mae rhai darnau o theatr fodern yn gignoeth a digyfaddawd. Nod rhai darnau o waith cyfoes yw gwneud i'r gynulleidfa deimlo'n anghyfforddus.

Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod y dysgwr dros 16 oed yn golygu y gall yr ymarferydd ganiatáu pob math o ddulliau neu bob math o iaith yn y dosbarth neu'r stiwdio ddrama. Mae angen i'r ymarferydd drama barhau i fod yn agored ac yn ystyriol. Mae angen i'r ymarferydd fod yn ymwybodol o gam datblygiadol y dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed yn y grŵp a meddwl yn ofalus am yr hyn sy'n briodol a derbyniol. Pan fydd dysgwyr yn astudio dramâu ac yn mynychu perfformiadau, dylai hyn fod yn rhan o gynllun gwaith y cytunwyd arno ac a rennir ag aelodau staff eraill a rheolwyr yn y maes/adran. Pan fydd dysgwyr yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r dulliau a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth, yna mae angen i'r ymarferydd wrando ar y dysgwr a dod â'r gweithgaredd i ben neu ei addasu mewn modd priodol.

Ar ôl 16 oed, mae cyfle i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau lefel 3 (e.e. Safon UG/Uwch a Diploma Cenedlaethol BTEC) gael rhywfaint o flas ar 'actio method' fel

techneg ymarferol mewn modd cyfyngedig er mwyn rhoi ychydig enghreifftiau ymarferol o dechnegau a ddefnyddir weithiau yn y theatr broffesiynol i ddysgwyr sy'n hŷn nag 16 oed. Mae hyn yn golygu y gallai'r athro gynnal rhai sesiynau ymarferol fel y gall y dysgwr sy'n hŷn nag 16 oed gael profiad o'r ffordd y gallai actor neu gyfarwyddwr ddefnyddio techneg 'actio method' i ddatblygu cymeriad neu ymchwilio i sefyllfa ddramatig. Ni ddylid defnyddio'r dechneg hon fel y prif ddull ar gyfer datblygu gwaith dramatig mewn ysgol neu goleg addysg bellach. Dylid defnyddio technegau 'actio method' llawn ar gyfer gwaith gydag oedolion sy'n hŷn na 18 oed.

9. Noethni a chyswllt corfforol agos

Ni ddylai ymarferwyr a rheolwyr byth ganiatáu noethni

Nid oes lle i noethni na chyswllt corfforol agos mewn gwersi na pherfformiadau drama i bobl ifanc dan 18 oed mewn ysgolion, colegau addysg bellach neu leoliadau eraill.

Ni ddylai ymarferwyr drama a rheolwyr byth ganiatáu unrhyw gyswllt agos rhywiol, bwriadol

Nid oes lle i gyswllt agos, rhywiol mewn gwersi na pherfformiadau drama mewn ysgolion, colegau addysg bellach neu leoliadau eraill sy'n addysgu pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n anodd diffinio'n union lle mae'r ffin rhwng cyswllt corfforol a chyswllt agos rhywiol. Mae actio'n cynnwys ystumiau a symudiadau corfforol ac yn aml mae'n cynnwys cyswllt corfforol rhwng unigolion neu grwpiau. Efallai y bydd angen i rai cymeriadau ddal un cymeriad yn ôl; efallai y bydd dau gymeriad yn ymladd; gall cymeriadau gofleidio ei gilydd am eu bod yn gyfeillion. Ni allai drama ddigwydd heb gyswllt corfforol o'r fath.

I osgoi unrhyw anawsterau, mae angen i ymarferwyr drama ddefnyddio eu synnwyr cyffredin. Mae hyn yn golygu na ddylai plant a phobl ifanc gael unrhyw gysylltiad rhywiol bwriadol mewn gwersi ac yn ystod perfformiadau. Weithiau, gall plant a phobl ifanc gyffwrdd â'i gilydd yn rhywiol yn ddamweiniol am ennyd fechan, er enghraifft trwy frwsio yn erbyn ei gilydd mewn ymarferion cynhesu neu mewn perfformiad neu waith byrffyr. Pan fo hyn yn gwbl ddamweiniol, ac nad yw'n peri gofid i'r plant neu'r bobl ifanc, yna mae'n rhan dderbyniol o'r hyn a allai ddigwydd yn ystod gweithgaredd corfforol. Y pwynt allweddol yw bod hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n amlwg heb fod yn rhywiol. Nid oes lle i gyswllt agos rhywiol mewn cynllun gwaith drama mewn ysgol neu goleg addysg bellach neu leoliad arall ar gyfer addysgu pobl ifanc.

Mae angen i ymarferwyr drama ystyried yn ofalus pa ystumiau a symudiadau sy'n briodol i gyfathrebu'r emosiwn neu'r syniad sydd ei angen yn y ddrama neu'r gwaith byrffyr a pha ystumiau a symudiadau sy'n dderbyniol. Fel rheol, mewn ysgolion a cholegau, mae'n bosib cyfnewid unrhyw symudiadau ac ystumiau anghynnil mewn testun am ffurfiau mwy derbyniol o weithgarwch dramatig sy'n dal i gyfathrebu'r un

emosiynau a syniadau i'r gynulleidfa fwy neu lai. Drwy wneud hyn, mae'r perfformiad dramatig cyffredinol yn cadw ei onestrwydd a'i eglurdeb, ond heb roi'r dysgwyr a'r ymarferydd mewn sefyllfa anodd.

Er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr yn anghyfforddus gyda rhai mathau o gusanu mewn perfformiad oherwydd y closrwydd corfforol, beth bynnag fo ysgogiad y cymeriadau neu genre y perfformiad. Ffordd synnwyr cyffredin o ymdrin â'r mater yw canolbwyntio ar yr emosiwn sydd angen ei gyfathrebu. Y nod yn aml yw cyflwyno serch neu gariad rhwng dau gymeriad. Yn y mwyafrif o achosion, gall cusan ar y foch neu gofleidio gyfleu'r emosiwn angenrheidiol. Mae'r ystumiau hyn yn dangos serch mewn ffordd dderbyniol ac amlwg.

Dylai ymarferwyr fod yn sensitif iawn i'r pryderon hyn ac ni ddylent byth fynnu bod plant neu unigolion ifanc yn cusanu ei gilydd. Byddai angen rheswm eglur dros ddefnyddio ystum neu symudiad clòs, fel cusan, mewn unrhyw waith dramatig, a dylai'r ymarferydd drama allu cyfiawnhau'r ystum i rieni a rheolwyr, pe bai angen.

Mae'n rhaid i ymarferwyr drama ddefnyddio dull cam wrth gam cyn cyffwrdd yn gorfforol â'r plant a phobl ifanc

Pan fydd ymarferydd drama'n teimlo nad yw'r dysgwr yn actio'n dda a'i fod angen cymorth gyda symudiad neu ystum corfforol, yna dylai'r ymarferydd ddefnyddio cyfarwyddiadau llafar yn gyntaf i gael yr ymateb angenrheidiol gan y dysgwr. Os nad yw hynny'n gweithio, dylai'r ymarferydd ddangos y symudiad neu'r ystum i'r dysgwr ei hun. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r ddau gam hyn yn ddigon i sicrhau'r ymateb angenrheidiol. Os nad yw'r un o'r ddau'n gweithio, yna gall yr ymarferydd gynorthwyo'r dysgwr trwy gynnig addasu'r ystum neu'r symudiad corfforol penodol. Dylai'r ymarferydd wneud hyn dim ond os yw'r dysgwr yn gyfforddus â'r ymyriad ac yn cytuno. Does dim rhaid i hon fod yn broses ffurfiol a hirwyntog. Bydd yn digwydd yn gyflym yn ystod y drefn naturiol o addysgu fel rheol. Gellir crybwyll y mater fel cwestiwn cyflym, er enghraifft 'Oes ots gen ti os ydw i'n dy helpu di gyda hyn?' neu 'Alla i dorri ar draws am eiliad?' neu 'Rydw i angen dy symud di fan hyn - ydy hynny'n iawn?' Cyn belled â bod y dysgwr yn cytuno ac nad yw'r cyswllt corfforol yn agos mewn unrhyw ffordd, yna gall yr ymarferydd barhau'n ddiogel. Hefyd, dylid gwneud hyn mewn amgylchedd agored - bydd hyn yn sicrhau bod y dysgwr a'r athro'n teimlo'n ddiogel.

10. Iaith gref a sarhaus

Dylai ymarferwyr drama a rheolwyr gyfyngu ar ddefnydd o iaith gref a sarhaus mewn perfformiad gan ddysgwyr sy'n iau nag 16.

Gall defnyddio iaith gref a sarhaus greu anawsterau i'r ymarferydd ac i blant a phobl ifanc mewn gweithgareddau drama. Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, mae dysgwyr ac ymarferwyr drama'n defnyddio eu synnwyr cyffredin. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio iaith gref a sarhaus wrth siarad yn anffurfiol gyda'i gilydd bob dydd. Fodd

bynag, nid yw'n gyffredin i hyn gael ei adlewyrchu mewn perfformiadau dramatig a gwaith byrfyfyr a gyflawnir gan blant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn cydnabod nad yw iaith sarhaus yn briodol yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn addasu eu hiaith eu hunain o'r herwydd.

Mae defnyddio iaith gref yn tramgwyddo llawer o bobl heddiw. Er bod agweddau rhai pobl tuag at iaith sarhaus wedi meddalu, mae plant a phobl ifanc yn parhau i gydnabod eu bod yn croesi llinell pan fyddant yn defnyddio iaith gref a sarhaus gyda rhieni ac ymarferwyr. Ac eto, mae bodolaeth llinell o'r fath yn golygu y gall iaith gref a sarhaus greu angerdd emosiynol ac ymosodiad llafar sy'n ddefnyddiol i berfformwyr mewn gwaith dramatig.

Mae llawer o ddramâu cyfoes yn cynnwys enghreifftiau o iaith gref a sarhaus wrth iddynt geisio adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir gan lawer o oedolion a phobl ifanc yn eu bywydau bob dydd. Yn y theatr fodern, mae iaith gref yn adlewyrchu'r defnydd achlysurol, difeddwl hwn o'r iaith sy'n digwydd yn ein cymdeithas. Yn yr ystyr hwn, mae iaith sarhaus yn rhan o'r ffordd y mae drama'n portreadu profiad go iawn a rennir. Gallai plant a phobl ifanc sy'n gwneud gwaith byrfyfyr hefyd deimlo ei bod yn iawn defnyddio iaith gref er mwyn cyflwyno'r byd sy'n brofiad go iawn iddyn nhw.

Mae ymarferwyr drama fel rheol yn defnyddio eu synnwyr cyffredin wrth benderfynu ar yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol o ran iaith lafar ac ysgrifenedig. Byddant fel rheol yn cydnabod bod defnydd dysgwyr o iaith sarhaus yn aml o ganlyniad i blant yn ceisio gwrthio'r ffiniau i weld pa mor bell y gallant fynd, ac mae ymarferwyr yn cadarnhau a sefydlu'r arferion y cytunwyd arnynt ar gyfer yr amgylchedd ffurfiol, fel ysgol neu goleg, yn gyflym ac yn ystyriol, sef bod iaith sarhaus yn amhriodol yn yr ystafell ddosbarth. Mae plant a phobl ifanc yn defnyddio rhegfeydd mewn gweithgareddau drama am eu bod yn credu y bydd yn cynhyrfu pobl ac yn ychwanegu angerdd at eu gwaith, ond yn aml nid yw hynny'n wir. Canlyniad diffyg syniadau dramatig yw rhegi'n aml, ymgais i guddio diffyg sgiliau dramatig a chreadigrwydd go iawn.

Ceir ambell eithriad lle mae iaith gref a rhegi yn ddilys. Wrth ddarllen ac astudio dramâu modern, mae'n anochel y bydd dysgwyr yn dod ar draws iaith gref. Ym mhob achos, mae'n rhaid bod pwynt dilys i ddefnyddio iaith o'r fath. Ni ddylid ei defnyddio llawer yn y ddrama sy'n cael ei hastudio neu ei pherfformio. Ar yr adegau prin pan y'i defnyddir, dylai gael effaith ddramatig a phwrrpas. Pan ddefnyddir iaith gref, dylai fod yn briodol ar gyfer lefel aeddfedrwydd y dysgwyr, natur y grŵp a pha mor agored i niwed yw dysgwyr unigol. Dylai'r dysgwyr eu hunain hefyd deimlo'n gyfforddus gyda'r iaith a ddefnyddir ganddynt a'i deall.

11. Recordio ar fideo a chaniatâd rhieni

Dylai ymarferwyr drama a rheolwyr gael caniatâd gan rieni cyn tynnu ffotograffau o ddysgwyr neu eu recordio ar fideo. Mae'r un peth yn wir wrth dynnu ffotograffau o oedolion neu eu recordio nhw ar fideo.

Nid yw tynnu ffotograffau o blant neu bobl ifanc mewn ysgol neu goleg neu eu recordio ar fideo yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, gallai rhai rhannau o'r Ddeddf Diogelu Data a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fod yn gymwys yn yr achosion hyn (gweler yr atodiad ar gyfer canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu ffotograffau mewn ysgolion).

Y peth gorau i ymarferwyr drama ei wneud yw sicrhau eu bod yn cael caniatâd gan rieni cyn tynnu ffotograffau o blant a phobl ifanc neu eu recordio ar fideo. Mae hyn yn cynnwys ymarferion, arholiadau drama a pherfformiadau. Dylai ymarferwyr gael caniatâd gan unrhyw oedolion sy'n cymryd rhan hefyd.

Gallai ymarferwyr drama fodloni'r gofynion hyn trwy ofyn i rieni lofnodi ffurflen ganiatâd ar ddechrau'r cwrs i ganiatáu i waith dramatig eu plentyn gael ei recordio ar gamera neu fideo yn ystod gwrsi ac ymarferion. Dylai'r llythyr at y rhieni, a allai gael ei ddanfôn wrth y Pennaeth ar ran pob adran neu gwrs perthnasol, wneud yn glir y cedwir y delweddau'n ddiogel ac na fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall ar wahân i'r hyn y rhoddwyd caniatâd iddo yn wreiddiol.

Os yw gwneud fideo/tynnu llun yn ofynnol gan y corff arholi, ni fydd dysgwyr nad yw eu rhieni yn rhoi eu caniatâd yn gallu dilyn y cwrs astudiaeth.

Atodiadau

1. Dyfyniad o Argymhellion adroddiad Clywch Comisiynydd Plant Cymru (Gorffennaf 2004)

21.13 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r DfES, ACCAC a'r awdurdodau cwricwlwm ac asesu cymwys cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ystyried y ffordd yr addysgir ac yr arholir drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, gyda'r nod o gynhyrchu canllawiau arfer o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r adroddiad hwn a fydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol:

- (i) dethol testunau drama priodol mewn addysg ac arholiadau;
- (ii) cyfranogiad oedolion mewn dramâu ysgol ac arholiadau drama ymarferol;
- (iii) addysgu drama yn ddiogel, yn arbennig rôl yr ymarferydd mewn sesiynau byrfyfyr ac actio method;
- (iv) lleoliadau ac amseroedd ar gyfer arholiadau ac ymarferion drama;
- (v) recordio plant a phobl ifanc mewn ymarferion drama ac arholiadau ymarferol ar fideo a'r angen i gael caniatâd y rhieni;
- (vi) yr arfer o gynnwys plant iau o fewn sesiynau drama ymarferol disgyblion hŷn;
- (vii) monitro sgriptiau a gosod cosbau am sgriptiau a gaiff eu cyflwyno yn hwyr i fyrddau arholi ar gyfer arholiadau ymarferol;
- (viii) canllawiau pendant ynghylch cynnwys ac iaith rywiol, cyswllt corfforol agos a noethni mewn arholiadau a gwersi drama ymarferol;
- (ix) dyletswyddau rheolwyr ysgolion a cholegau wrth fonitro'r ffordd y cedwir at y canllawiau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith.

2. Canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu ffotograffau mewn ysgolion

Nod y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau arfer da hyn ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol a'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae'n cynnig cyngor ar dynnu ffotograffau mewn sefydliadau addysgol ac a oes rhaid i hyn gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

Arfer Da a Argymhellir

Mae'n annhebyg y bydd y Ddeddf Diogelu Data'n gymwys mewn llawer o achosion lle mae ffotograffau'n cael eu tynnu mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Ni ddylai'r pryder o fynd yn groes i ddarpariaethau'r Ddeddf atal pobl rhag tynnu ffotograffau neu recordio ar fideo.

Lle nad yw'r Ddeddf yn gymwys, mae dull synnwyr cyffredin yn awgrymu os yw'r ffotograffydd yn gofyn am ganiatâd i dynnu ffotograff, y bydd hyn yn ddigon i sicrhau cydymffurfiaid fel rheol.

Efallai y bydd ffotograffau sy'n cael eu tynnu at ddefnydd swyddogol yr ysgol yn dod o dan y Ddeddf a dylid dweud wrth ddisgyblion a myfyrwyr pam eu bod yn cael eu tynnu.

- Mae ffotograffau sy'n cael eu tynnu at ddefnydd personol wedi'u heithrio o'r Ddeddf.
- Mae ffotograffau sy'n cael eu tynnu gan y cyfryngau wedi'u heithrio o'r Ddeddf fel rheol.

Enghreifftiau

Defnydd personol:

Mae rhiant yn tynnu ffotograff o'i blentyn a'i ffrindiau'n cymryd rhan yn niwrnod mabolgampau'r ysgol i'w roi yn albwm lluniau'r teulu. Mae'r delweddau hyn at ddefnydd personol ac nid yw'r Ddeddf Diogelu Data'n gymwys.

Gwahoddir nain a thaid i ddrama'r geni adeg Nadolig ac maent am ei recordio ar fideo. Mae'r delweddau hyn at ddefnydd personol ac nid yw'r Ddeddf Diogelu Data'n gymwys.

Defnydd swyddogol yr ysgol:

Tynnir lluniau o ddisgyblion neu fyfyrwyr i greu cardiau adnabod. Mae'n debygol y bydd y delweddau hyn yn cael eu storio'n electronig gyda mathau eraill o ddata personol a bydd amodau'r Ddeddf yn gymwys.

Tynnir ffotograff o grwp bach o fyfyrwyr yn ystod gwers wyddoniaeth a bydd y ffotograff yn cael ei ddefnyddio ym mhrosiectws yr ysgol. Mae hwn yn annhebyg o fod yn ddata personol ac ni fyddai'r ddeddf yn gymwys.

Defnydd y cyfryngau:

Mae'r papur lleol yn tynnu llun o seremoni wobrwyo mewn ysgol. Mae'n annhebygol y bydd hyn wedi'i gynnwys dan y Ddeddf. Hyd yn oed os oedd wedi'i gynnwys, mae data personol sy'n cael ei brosesu er dibenion newyddiaduraeth wedi'u heithrio o brif ddarpariaethau'r Ddeddf. Fodd bynnag, oherwydd y gallai fod pryderon gwirioneddol mewn achosion unigol fod y lluniau'n ymddangos yn y wasg, byddai'n arfer da i ysgolion hysbysu pobl y bydd y wasg yn mynychu digwyddiadau penodol.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth am hyn neu unrhyw agwedd arall ar Ddiogelu Data, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Gwefan: www.ico.gov.uk

Ebost: mail@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545700

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - GPN

Cyhoeddwyd Chwefror 2005

Ailfformadiwyd Hydref 2005